Rhif: WG21275

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

# Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mai 2014
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Gorffennaf 2014

# Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gwahodd sylwadau ar gynigion i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **25 Gorffennaf 2014** fan hwyraf. Nodwch eich prif ddiddordeb yn yr ymgynghoriad hwn yn llinell pwnc eich e-bost (e.e. rhiant/gofalwr, plentyn neu berson ifanc ag AAA, athro, therapydd iaith a lleferydd, ac ati) pan fyddwch yn ymateb.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

*Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol* (2012)
www.cymru.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=cy

Ceir crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd â rhanddeiliaid ym mis Medi a mis Hydref 2013 ar wefan Llywodraeth Cymru yn
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/additional-learning-needs-reform/?skip=1&lang=cy

Gellir gweld adroddiadau ar y Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ein gwefan yn
http://new.wales.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy

*Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (2004)
http://learning.wales.gov.uk/resources/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6044
Ffacs: 029 2080 1044

© Hawlfraint y Goron 2014
WG21275

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Rhagair gan y Gweinidog** **2**
**Cyflwyniad** **4**
Yr egwyddorion 4
Nodau 5
Crynodeb o'r cynigion 5
Cwmpas 8
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 9
**Y cefndir a'r cyd-destun** **10**
Ein hagenda ehangach ar gyfer gwella 12
**1. Fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol** **16**
1.1 Beth yw'r sefyllfa bresennol? 16
1.2 Pam yr ydym yn cynnig newid? 16
1.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil? 21
**2. Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol** **28**
2.1 Beth yw'r sefyllfa bresennol? 28
2.2 Pam yr ydym yn cynnig newid? 28
2.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil? 30
**3. System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau** **36**
3.1 Beth yw'r sefyllfa bresennol? 36
3.2 Pam yr ydym yn cynnig newid? 36
3.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil? 37
**Casgliad** **41**
Beth fydd yr effaith? 41
Yr amserlen a'r camau nesaf 43

## Rhagair gan y Gweinidog

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu pob cyfle i lwyddo. Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn wynebu rhwystrau penodol o safbwynt elwa ar gyfleoedd a chyflawni hyd eithaf eu gallu. Eto i gyd, os caiff cefnogaeth briodol ei chynnig i blant o oedran cynnar bydd modd iddynt orchfygu llawer o'r rhwystrau hyn, gan lwyddo yn eu harddegau ac fel oedolion. Bydd cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig hefyd yn agwedd bwysig ar ein hagenda ar gyfer trechu tlodi. Mae nifer uchel iawn o ddysgwyr sydd ag AAA yn ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae ein Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi disgyblion o gefndiroedd tlotach i gyflawni gwell deilliannau, gan felly ei gwneud hi'n llai tebygol fod plant sy'n byw mewn tlodi yn tyfu'n oedolion sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon nac yn effeithiol. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn gam pwysig ymlaen o safbwynt cyflawni ein hymrwymiad i ddiwygio'r broses ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn un ai ysgol neu sefydliad Addysg Bellach. Mae'n disgrifio'r newidiadau i bolisi a deddfwriaeth sylfaenol y mae angen eu cyflwyno, yn ein tyb ni, er mwyn diwygio'n effeithiol y fframwaith presennol ar gyfer AAA a gwella'r gefnogaeth a gynigir i ddysgwyr. Byddai rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol a gynigir yn golygu newid sylweddol i'r fframwaith statudol tra byddai eraill yn adeiladu ar gryfderau sydd eisoes i'w cael. Yr egwyddor sy'n sail i'n gwaith yw y dylai'r hyn sy'n gweithio gael ei gadw a'i wella a dylai'r hyn nad yw'n gweithio gael ei addasu a'i ddisodli.

Mae cydweithredu'n agwedd ganolog ar ein cynigion. Mae gan yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, swyddogaeth allweddol o safbwynt cynnig cefnogaeth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Effaith gyffredinol y diwygiadau hyn fydd cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Rydym yn croesawu eich sylwadau.

**Huw Lewis AC**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

# Cyflwyniad

Roedd ein *Rhaglen Lywodraethu*[1] a gyhoeddwyd yn 2011 yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio'r broses ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion ac Addysg Bellach (AB).

Roedd defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) yn cynrychioli cam bwriadol i ffwrdd o'r system 'anghenion addysgol arbennig', sydd wedi hen ddyddio erbyn hyn, gan anelu at greu dull mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu'n well holl amrywiaeth anghenion dysgu. Roedd ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu* hefyd yn dangos y byddai system newydd ar gyfer ADY yn berthnasol i ysgolion a hefyd sefydliadau AB. Ar hyn o bryd ceir deddfwriaeth ar wahân ynghylch AB sy'n cyfeirio at ddysgwyr ag 'anawsterau a/ neu anableddau dysgu' (AAD) yn hytrach nag AAA.

Yn y ddogfen hon byddwn yn defnyddio'r term 'AAA' (neu AAD o safbwynt y system ôl-16 a'r ddeddfwriaeth bresennol) wrth gyfeirio at y ddeddfwriaeth bresennol. Byddwn yn defnyddio 'ADY' wrth ddisgrifio ein cynigion ar gyfer newid ar draws y sbectrwm 0 i 25 oed. Ceir rhagor o fanylion ynghylch ein cynigion ar gyfer newid y diffiniadau statudol ym Mhennod 1.

Rydym yn ymwybodol o wahanol ddiffiniadau o'r termau 'plant', 'pobl ifanc' ac 'oedolion ifanc' sy'n cael eu defnyddio ar draws y sectorau addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn unol â'r defnydd ohonynt ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, caiff y termau 'plant a phobl ifanc' neu 'plentyn a pherson ifanc' eu defnyddio gydol y ddogfen hon wrth gyfeirio at unrhyw un hyd at 25 mlwydd oed.

## Yr egwyddorion

Mae sawl egwyddor allweddol yn sail i'n dull ar gyfer diwygio'r fframwaith AAA, sef:

- rhaid sicrhau bod lles gorau dysgwyr yn ystyriaeth hollbwysig[2];
- dylai barn dysgwyr, a hefyd barn eu rhieni[3] gael ei hystyried bob amser;
- dylai dysgwyr allu disgwyl i'w hanghenion gael eu nodi a'u bodloni;
- dylai'r broses o gymeradwyo asesiadau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr fod yn fwy syml ac yn broses sy'n ennyn llai o wrthwynebiad;

[1] Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929fullcy.pdf

[2] Mae Erthygl 3 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi: 'In all actions concerning children, whether undertaken by public or private social welfare institutions, courts of law, administrative authorities or legislative bodies, the best interests of the child shall be a primary consideration.' Gellir gweld y Confensiwn cyfan ynt: www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx

[3] Lle y caiff y term 'rhieni'/rhiant ei ddefnyddio yn ein cynigion golygir rhieni a hefyd bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu sy'n gofalu amdano, er nad hwy yw'r rhieni geni.

- dylai unrhyw anghytundebau gael eu datrys mewn modd mor gyflym a didrafferth â phosibl;
- dylai pawb sydd ynghlwm wrth gynnig cefnogaeth i ddysgwyr gydweithio er mwyn darparu gwasanaeth di-dor.

## Nodau

Yn unol â'n hegwyddorion allweddol rydym wedi datblygu cynigion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a fydd, gyda'i gilydd, yn ceisio creu:

1. **fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;**

2. **proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;**

3. **system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.**

## Crynodeb o'r cynigion

Y nodau uchod yw teitlau penodau'r Papur Gwyn hwn a byddwn yn amlinellu ymhob un y sefyllfa bresennol, pam rydym yn cynnig newid a hefyd y newidiadau penodol yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil.  Bydd y newidiadau hyn yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a fydd yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer AAA a'r darpariaethau ar gyfer asesu addysg a hyfforddiant ôl-16 plant a phobl ifanc ag AAD.

Yn fyr, ein cynigion allweddol ar gyfer cyflawni'r nodau hyn yw:

1. Cyflwyno'r termau 'anghenion dysgu ychwanegol' a 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' a fydd yn disodli'r termau presennol sef 'anghenion addysgol arbennig' a 'darpariaeth addysgol arbennig'.

2. Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a fydd yn disodli datganiadau AAA, asesiadau ôl-16 (o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl-16.

3. Ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch Cod Ymarfer ar ADY a'i gyhoeddi, a allai gynnwys:
   - gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol (awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB, unedau cyfeirio disgyblion (UCD),

byrddau iechyd lleol a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ('y Tribiwnlys')) weithredu’n unol â hwy;

- canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi sylw dyledus iddynt.

4. Nodi'r gofynion lleiaf o safbwynt gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU, a'i gwneud hi'n ofynnol i'r Cod nodi gofynion gorfodol manwl a fydd yn ategu hyn.

5. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi CDU a sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r CDU yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bod ganddo ADY ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.

6. Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB ac UCD wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Datblygu Unigol plentyn neu berson ifanc yn cael ei darparu.

7. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer dysgwyr ôl-16 lle y mae'r CDU yn pennu ei bod yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion plentyn neu berson ifanc

8. Gwahardd lleoli unrhyw blentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i ddarparu'r math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.

9. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn cael eu cynnwys, yr ymgynghorir â hwy ac y gwrandewir ar eu barn o'r dechrau'n deg a chydol y broses asesu a chynllunio sydd ynghlwm wrth y CDU

10. Ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau bod CDU yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf, a hefyd ei gwneud hi'n bosibl iddynt gael eu cynnal yn gynharach neu'n fwy aml lle y bo hynny'n briodol.

11. Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch adnabod plant ag ADY yn gynnar iawn, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol.

12. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau AB gydweithredu a rhannu gwybodaeth wrth asesu, cynllunio ac wrth gyflawni darpariaeth er mwyn bodloni anghenion dysgu plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

13. Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau a fydd yn cefnogi arferion gwaith effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau.

14. Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion prif ffrwd ddynodi Cydlynydd ADY.

15. Sicrhau bod modd i CDU ddisodli Cynlluniau Addysg Personol neu gyflawni eu swyddogaethau o safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

16. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor a hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau (i awdurdodau), gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.

17. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a'i gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio prosesau cwynion lleol cyn cyfeirio apêl i'r Tribiwnlys.

18. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi person annibynnol a fydd yn hwyluso’r gwaith o ddatrys anghytundebau.

19. Sicrhau bod hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys yn erbyn:
    - penderfyniad i beidio â sefydlu CDU;
    - gwrthod cais i adolygu CDU;
    - union gynnwys CDU, gan gynnwys y disgrifiad o anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu'r ddarpariaeth addysgol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny;
    - methiant i gyflwyno'r ddarpariaeth a nodwyd yn y CDU;
    - penderfyniad i ddirwyn CDU i ben.

20. Rhoi'r hawl i apelio i unrhyw blentyn, person ifanc o oedran ysgol neu iau sydd â CDU (neu ei riant) neu sy'n credu y dylai fod ag un.

21. Estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr ôl-16, hyd at 25 oed, sydd ag ADY ac sy'n derbyn neu sy'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.

22. Ailddatgan y darpariaethau presennol mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a chyfeillion achos, ond ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ynghylch y mater, gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.

## Cwmpas

Yn unol ag ymrwymiad ein *Rhaglen Lywodraethu*, mae ein cynigion yn canolbwyntio ar ysgolion a gynhelir (hynny yw, ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol, ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir) a sefydliadau AB[4]. Rydym yn awgrymu gwahanol ofynion gorfodol mewn perthynas â'r darparwyr addysg hyn, ac rydym yn cynnwys UCD gyda hwy.

Mae gan ddarparwyr eraill addysg a hyfforddiant, gan gynnwys ysgolion annibynnol, colegau arbenigol annibynnol, darparwyr blynyddoedd cynnar preifat a gwirfoddol a darparwyr dysgu seiliedig ar waith hefyd swyddogaeth o safbwynt darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Byddwn yn ceisio datblygu canllawiau clir yn y Cod Ymarfer ynghylch sut y gallai eu swyddogaeth gael ei datblygu ac efallai y bydd gofyn i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau y bydd yn eu cynnwys.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig gofynion cofrestru newydd mewn perthynas ag ysgolion annibynnol lle y caiff plant a phobl ifanc ag ADY eu lleoli, ac rydym yn ystyried estyn hyn i gynnwys colegau arbenigol annibynnol.

Nid ydym wedi cynnwys Addysg Uwch (AU) yn ein cynigion ar gyfer diwygio oherwydd bod gan y sector AU eisoes seilwaith ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY. Mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddulliau cyllido er mwyn cefnogi sefydliadau AU yng Nghymru i ehangu mynediad a gwella eu darpariaeth ar gyfer myfyrwyr anabl a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol[5]. Mae hyn wedi cael ei ganmol mewn adolygiad annibynnol diweddar gan yr Academi Addysg Uwch a groesawodd ymrwymiad cadarn sector AU Cymru i ehangu mynediad. Dyfynnwyd sawl enghraifft o arferion rhagorol a blaengar[6].

Yn ogystal, mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl ar gael fel grantiau nad oes angen eu had-dalu. Diben y rhain yw cynorthwyo myfyrwyr anabl i elwa i'r eithaf ar gwrs AU. Er nad yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013, sy'n ategu Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, yn diffinio anabledd noda canllawiau Llywodraeth Cymru y dylai pob achos gael ei ystyried lle y gall costau ychwanegol ddeillio o astudio cwrs

---

[4] Mae'r term 'sefydliad addysg bellach' yn cynnwys corfforaethau addysg bellach a sefydliadau dynodedig o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a hefyd is-gyrff y mae Sefydliadau Addysg Uwch yn berchen arnynt yn llwyr ac sy'n derbyn cyllid gan yr Adran Addysg a Sgiliau i ddarparu addysg bellach..

[5] Ceir rhagor o wybodaeth am Ehangu Mynediad i AU ar wefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/widening_access/widening_access.aspx

[6] Michael Hill a Sue Hatt (2012), *Review of Widening Access and Reaching Wider Strategies in Wales*.
http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/nations/wales/Review_of_the_Widening_Access_and_Reaching_Wider_Strategies_in_Wales_English.pdf

AU oherwydd anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol[7]. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried mesurau ar gyfer moderneiddio Lwfansau Myfyrwyr Anabl a bydd yn ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig maes o law.  Byddwn yn sicrhau bod y cynigion yn adlewyrchu'r diwygiadau a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r cynigion hyn ar gyfer diwygio deddfwriaethol wedi'u datblygu yn unol â dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n berthnasol i'r gwaith o lunio neu adolygu polisi a deddfwriaeth[8].

[7] Ceir rhagor o wybodaeth am Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn http://www.studentfinancewales.co.uk/practitioners/products/disabled-students'-allowances.aspx
[8] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

## Y cefndir a'r cyd-destun

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhagarweiniol[9] ynghylch camau posibl i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag AAA. Deilliodd hyn o adolygiad cynhwysfawr o AAA gan gyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru[10]. Yn dilyn hyn sefydlwyd nifer o brosiectau peilot er mwyn datblygu a threialu systemau a dulliau newydd.

Ym mis Mehefin 2012 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Disgrifiodd y ddogfen ymgynghori *'Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion*[11] weledigaeth eang ar gyfer system ddiwygiedig. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2013[12]. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynigion mewn egwyddor, teimlai llawer o bobl fod angen rhagor o fanylder er mwyn gallu deall yn iawn oblygiadau'r cynigion ar lefel ymarferol.

O'r herwydd, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, sef Leighton Andrews AC, na fyddai camau diwygio deddfwriaethol yn mynd rhagddynt am y tro fel bod modd cydweithio â'n partneriaid allweddol i ddatblygu ac ailystyried cwmpas ac effaith y cynigion ynghyd â'r gallu i'w cyflawni[13]. I'r perwyl hwn cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ystod hydref 2013[14] ac rydym wedi parhau i gyfnewid syniadau gyda gwahanol randdeiliaid a grwpiau proffesiynol allanol er mwyn nodi dulliau ymarferol a realistig o gyflwyno diwygiadau effeithiol a hirdymor.

Ers yr ymgynghoriad diwethaf yn 2012 mae nifer o ffactorau eraill wedi dylanwadu ar y gwaith o ddiwygio'r fframwaith AAA ac wedi'i ailffurfio i ryw raddau. Dyma rai ohonynt:

---

[9] Llywodraeth Cymru (2007), *Datganiadau neu Rywbeth Gwell?*

[10] Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig (2004), *Rhan 1: Adnabod ac ymnyrryd yn gynnar;* (2006) *Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Gwneud Datganiadau);* (2007) *Rhan 3: Trosglwyddo.*

[11] Llywodraeth Cymru (2012), *Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig* (WG14863).

[12] Llywodraeth Cymru (2013), *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.*

[13] Leighton Andrews AC (26 Medi 2012), *Datganiad Ysgrifenedig: 'Y diweddaraf am yr ymgynghoriad ar Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol'* www.wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/senframework/?lang=cy

[14] Ceir crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd mewn gweithdai â rhanddeiliaid yn ystod hydref 2013 ar ein gwefan yn: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/additional-learning-needs-reform/?lang=cy

- Cwblhau prosiectau peilot ADY sydd wedi'u cynnal ar draws wyth awdurdod lleol yng Nghymru ers 2009 a chyhoeddi nifer o adroddiadau gwerthuso mewn perthynas â’r prosiectau hyn[15].

- Deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[16] a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng ADY a chynllunio gofal cymdeithasol.

- Diwygiadau i'r fframwaith AAA yn Lloegr o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae'r diwygiadau hyn wedi amlygu sawl mater ac wedi darparu sawl gwers i'w hystyried. Maent hefyd wedi ysgogi effeithiau trawsffiniol.

- Cyflwyno Bil Addysg (Cymru)[17] i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2013 a oedd yn cynnwys darpariaethau ynghylch cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol, asesu anghenion addysgol ac anghenion hyfforddiant dysgwyr ôl-16 ag ADY, a lleoliadau AB arbenigol. Cafodd y darpariaethau hyn eu dileu o'r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ym mis Ionawr 2014, pan gyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddent yn cael eu cynnwys mewn Bil ar wahân ynghylch anghenion dysgu ychwanegol[18].

- Cyhoeddi adroddiad gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus[19] ym mis Ionawr 2014 yn amlinellu gweledigaeth radical o sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus gael eu cyflenwi yn y dyfodol. Yn y cyfamser mae'r cyfyngiadau ar gyllid y sector cyhoeddus yn parhau i effeithio ar gyllidebau awdurdodau lleol a chyrff eraill tra bo'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu.

Rydym wedi pwyso a mesur y datblygiadau hyn yn ofalus a hefyd yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad 2012. O'r herwydd rydym wedi mireinio ac mewn sawl achos wedi ailffurfio ein cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig atebion ymarferol i ddiffygion y system bresennol a hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n radical ac yn gryf.

---

[15] Ceir adroddiadau gwerthuso ar brosiectau peilot ADY yn: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy
[16] Ceir gwybodaeth am Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn: www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664
[17] Ceir gwybodaeth am Fil Addysg (Cymru) yn: www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7186
[18] Huw Lewis AC (06 Ionawr 2014), *Datganiad Ysgrifenedig: Bil Addysg (Cymru) – Darpariaethau AAA* http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/8334615/?lang=cy
[19] Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (2014), *Adroddiad Llawn* http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=cy

## Ein hagenda ehangach ar gyfer gwella

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu'r cynigion ynghylch newid deddfwriaethol a fydd yn hollbwysig ar gyfer creu gwell system i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Eto i gyd, nid deddfwriaeth yw'r unig ateb ac ni ddylai gael ei hystyried fel mater ar wahân i agenda ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella addysg. O'r herwydd dylai'r cynigion hyn gael eu hystyried fel rhai sy'n hybu cyfres o welliannau a diwygiadau er mwyn cefnogi dysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu, gan gynnwys:

- ***Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol***[20] - Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion ar sail ranbarthol. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar weledigaeth o gonsortia rhanbarthol yn gweithio ar ran awdurdodau lleol er mwyn arwain, cyfarwyddo a chydgysylltu'r gwaith o wella perfformiad ysgolion a gwella addysg pobl ifanc. Er bod awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldeb statudol am gyflenwi'r ddarpariaeth AAA dylai awdurdodau lleol a chonsortia sicrhau bod eu gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag AAA yn cyfateb i raddau helaeth.

- ***Gwella ysgolion***[21] - y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer addysg ysgolion yng Nghymru, sy'n cynnwys diwygio'r ddeddfwriaeth ynghylch AAA fel rhan o'r ymrwymiad i gefnogi a diogelu plant agored i niwed neu'r rhai ag anghenion dysgu penodol.

- ***Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol*** - Yn aml mae plant o aelwydydd incwm isel o dan anfantais yn addysgol o'u diwrnod cyntaf yn yr ysgol. Gall plant o gefndiroedd difreintiedig, yn 5 mlwydd oed, fod eisoes flwyddyn y tu ôl i'w cyd-ddisgyblion o gefndiroedd mwy cefnog o safbwynt eu geirfa. Os na fydd y plant hyn yn derbyn cefnogaeth i orchfygu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, golyga effaith gronnol yr anfantais hon eu bod dros hanner cant y cant yn llai tebygol o ennill 5 TGAU da yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg o'u cymharu â disgyblion o deuluoedd mwy cefnog[22]. Er mwyn helpu'r disgyblion tlotaf i orchfygu'r rhwystrau sydd ynghlwm wrth fyw mewn tlodi byddwn yn cyhoeddi rhaglen o fentrau a fydd yn ceisio gwella cynnydd addysgol dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Rydym

[20] Llywodraeth Cymru (2014), *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy

[21] Llywodraeth Cymru (2012), *Gwella Ysgolion* http://learning.wales.gov.uk/news/sitenews/improvingschools/?lang=cy

[22] Yn 2013-14 llwyddodd 25.8% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i gyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 (5 TGAU gradd A* - C yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg), tra chyflawnodd 58.5% o'u cyd-ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim y trothwy- bwlch o 32.7%. Mae ein Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn cynnwys targed i wella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol myfyrwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, fel cyfran o'r dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn 15 oed sy'n cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 – i 37 y cant erbyn 2017.

hefyd wedi cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sydd werth £32.4 miliwn. Ysgolion sy’n gwbl gyfrifol am weinyddu’r grant hwn a'i nod yw buddsoddi mewn dulliau effeithiol o fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Yn ogystal, bydd ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn elwa ar £3 miliwn o gyllid Cymunedau yn Gyntaf, a fydd yn ychwanegol at y Grant Amddifadedd Disgyblion, er mwyn galluogi rhagor o gydweithio rhwng ysgolion a'u cymunedau. Mae'r cynlluniau hyn yn rhan bwysig o'r gwaith o fodloni'r ymrwymiadau a wnaethom yn ein Strategaeth Tlodi Plant a gyhoeddwyd yn 2011. Mae ein Cynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer Trechu Tlodi a gyhoeddwyd yn 2013 yn cynnwys targed penodol i wella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel, gan dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol[23].

- ***Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru*** [24] - Hoffem greu system addysg gynhwysol sy'n cefnogi ein holl ddysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Bydd adolygiad eang ei gwmpas Yr Athro Graham Donaldson yn cyflawni cwricwlwm a fydd yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion pob dysgwr ac y bydd yr asesiadau'n sicrhau addysgu addas a phriodol a dysgu ystyrlon ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

- ***Fframwaith Anawsterau Dysgu Penodol ar gyfer Cymru*** - ar y cyd â Grŵp Gorchwyl o arbenigwyr rydym wrthi'n datblygu fframwaith a fydd yn sefydlu dull cyson o sicrhau bod anawsterau dysgu penodol yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod ymyriadau cynnar yn eu cylch.

- ***Y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig***[25] - llywio gwelliannau i’r modd y caiff gwasanaethau eu comisiynu a'u darparu fel bod unigolion ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn derbyn pob cefnogaeth i gyflawni hyd eithaf eu gallu ymhob agwedd ar eu bywydau. Ers lansio'r cynllun gweithredu yn 2008 mae llawer iawn wedi'i gyflawni o safbwynt sefydlu seilwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau i bobl ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig. Mae disgwyl i Gynllun Gweithredu Strategol newydd gael ei gyhoeddi at ddiben ymgynghori yn ddiweddarach eleni a fydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd gan randdeiliaid, cyngor Grŵp Cynghori ar Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig a chasgliadau gwerthusiad annibynnol.

[23] http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/programme?lang=cy
[24] http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2014/8612374/?lang=cy
[25] Llywodraeth Cymru (2008), *Y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig* http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/autisticspectrumdisorderplan/?lang=cy

- ***Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol***[26]. Yn nodi camau ar gyfer hybu hawliau pobl anabl yng Nghymru i fyw'n annibynnol ac arfer yr un dewisiadau â dinasyddion eraill. Trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu bydd modd hybu eu hawliau a hefyd sicrhau rhagor o fanteision o safbwynt mynediad a chynhwysiant. Bydd hefyd yn hybu gwasanaethau mwy cynaliadwy a mwy ymatebol i bawb. O'r herwydd mae'r Fframwaith yn cynnwys y neges fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a'r darparwyr gwasanaethau lleol wneud pob ymdrech i sicrhau ein bod yn datblygu polisïau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth gyflenwi gwasanaethau.

- ***Cynllunio a datblygu'r gweithlu*** - Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gallu'r gweithlu i fodloni anghenion dysgu plant a phobl ifanc ag AAA. Dechreuwyd y gwaith hwn yn raddol o fis Ionawr 2014 ymlaen, a'r cam cyntaf fydd adolygu sgiliau'r gweithlu addysg cyffredinol a nodi eu hanghenion. Nod y cam nesaf fydd ystyried trefniadau cynllunio'r gweithlu o safbwynt gwasanaethau arbenigol.

- ***Y Rhaglen Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol*** - Fel rhan o'r gwaith o godi safonau addysgu bydd cyfle i athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru ddilyn y rhaglen Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol ar yr un pryd â'u rhaglen ymsefydlu a'u rhaglen datblygiad proffesiynol cynnar. Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwl ar ADY ers Gwanwyn 2014.

- ***Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg***[27] - Mae ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn galw am 'gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.' Mae disgwyl i awdurdodau lleol ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn disgrifio sut y maent yn bwriadu cyflawni targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru fonitro'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

- ***Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn*** - Mae'n golygu bod angen dull llawer iawn mwy cyfannol o asesu a chymeradwyo anghenion y dysgwr, ac mae'n sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc, a'i deulu, wrth wraidd y broses. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn annog pawb sydd

---

26 http://wales.gov.uk/topics/equality/rightsequality/disability/framework-for-action/?lang=cy

27 Llywodraeth Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy

ynghlwm wrth y system bresennol i fabwysiadu'r dull hwn o gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA a'u cefnogi cyn i'r diwygiadau deddfwriaethol gael eu cyflwyno.

- ***Sicrhau ansawdd*** - Deillia'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o ddata da ynghylch man cychwyn y dysgwr, pa ymyriadau sydd eu hangen ac sy'n cael eu darparu, y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau gwirioneddol. Mae'r lefel hon o 'sicrhau ansawdd' yr un mor bwysig i'r system AAA bresennol ag ydyw i unrhyw system newydd ar gyfer ADY. Byddwn yn nodi egwyddorion allweddol a chwmpas systemau sicrhau ansawdd er mwyn cefnogi darpariaeth effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA, a byddwn yn cefnogi hyfforddiant er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn darparu gwybodaeth dda a thebyg am ymyriadau. Byddwn yn cydweithio'n agos â'n partneriaid wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ymhellach.

# 1. Fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

## 1.1 Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Caiff deddfwriaeth mewn perthynas ag AAA ei nodi yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Er bod y diffiniad o AAA yn berthnasol i blant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol iawn mae'r ddeddfwriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth ac sydd â hawl i ddatganiad o AAA a gaiff ei roi gan yr awdurdod lleol. Ym mis Ionawr 2013 roedd gan 103,791 o ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru rhyw ffurf ar AAA, sy'n gyfystyr ag oddeutu 22 y cant o holl ddisgyblion Cymru. Fodd bynnag, dim ond 13,104 o'r disgyblion ag AAA oedd â datganiad, sy'n gyfystyr â 2.7 y cant o'r holl ddisgyblion.

Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch dysgwyr ôl-16 mewn AB sydd ag AAD wedi'i chynnwys yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ('Deddf 2000'). Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch AAD yn ymwneud ag asesiadau statudol (gan Weinidogion Cymru) ynghylch y plant a'r bobl ifanc hynny ag anghenion mwy cymhleth sy'n gadael yr ysgol ac sy'n bwriadu dilyn cwrs addysg bellach neu hyfforddiant.

Ceir canllawiau statudol ynghylch AAA yng Nghod Ymarfer AAA Cymru[28]. O safbwynt y plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiad, mae'r Cod yn nodi canllawiau mewn perthynas ag ymyriadau sydd un ai'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o strategaethau cwricwlwm arferol a phenodol yr ysgol neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar neu'n wahanol iddynt. Gelwir y rhain yn 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar.' Lle y mae ysgol neu leoliad y blynyddoedd cynnar yn ceisio cymorth gan wasanaethau cymorth allanol, fe'i gelwir yn 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' neu 'Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy'. Nid oes unrhyw ganllawiau mewn perthynas â dysgwyr sydd ag AAD.

## 1.2 Pam yr ydym yn cynnig newid?

Rydym yn barnu bod y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer AAA yn anfoddhaol am y rhesymau canlynol.

- **Mae'r derminoleg bresennol yn achosi stigma i blant a phobl ifanc ac mae'n gysylltiedig â system y mae angen ei diwygio'n sylweddol.**

[28] Gellir gweld Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar ein gwefan yn http://learning.wales.gov.uk/resources/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

Mae'r termau deddfwriaethol presennol 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/ neu anableddau dysgu' ynghlwm wrth system y mae angen ei diwygio'n sylweddol yn ein tyb ni. Er mwyn sicrhau'r diwygiadau yr ydym yn dymuno eu gwneud ac er mwyn pwysleisio arwyddocâd y diwygiadau mae'n hanfodol mabwysiadu terminoleg newydd. Byddai cadw'r termau ond newid y system a'r broses yn peri cryn ddryswch a chamddealltwriaeth. Er enghraifft, os bydd termau gwahanol yn cael eu defnyddio o hyd ar gyfer disgrifio darpariaethau mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach bydd hi'n fwy anodd i sicrhau parhad a chydlyniant o fewn y system. Credwn fod y rheswm hwn, ynddo'i hun, yn sail gryf dros newid y derminoleg.

Eto i gyd, credwn fod y termau presennol a'u diffiniadau yn ddiffygiol mewn sawl ffordd arall. Er bod y termau hyn yn rhai cyfarwydd, ac er bod pobl yn y maes yn eu deall yn dda cânt eu camddeall a'u camddefnyddio'n aml o fewn y gymuned ehangach. Yn ogystal, mae ystyron negyddol ynghlwm wrth sawl un bellach. Nid ydym o'r farn bod cadw termau sy'n rhai cyfarwydd ac y mae gweithwyr proffesiynol yn eu deall yn gwrthbwyso'r manteision sydd ynghlwm wrth gyflwyno terminoleg newydd o safbwynt sicrhau gwell eglurder a newid canfyddiadau'r cyhoedd ar lefel ehangach. Gall y diffiniadau presennol ymddangos yn rhai lletchwith, gallant fod yn rhai anodd eu deall ac nid ydynt o anghenraid yn briodol i bawb y credir bod angen eu cynorthwyo a'u diogelu ar lefel statudol. Credwn fod angen diffiniadau sy'n cyd-fynd â chwmpas a chyfeiriad ein diwygiadau ehangach.

- **Mae rhaniad aneglur rhwng y rhai y mae arnynt angen datganiadau o AAA a'r rhai nad oes arnynt eu hangen.**

Mae datganiadau AAA yn rhoi hawl statudol i'r cymorth y maent yn ei ddisgrifio. Eto i gyd, nid yw'r ddeddfwriaeth ynghylch AAA yn ceisio pennu'r meini prawf penodol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi datganiad. Yn hytrach, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol lunio a chynnal datganiad lle y bo angen er mwyn pennu'r ddarpariaeth addysgol arbennig y mae anhawster dysgu plentyn yn galw amdani. Mae'r Cod Ymarfer AAA yn awgrymu y gallai hyn godi pan fydd yr awdurdod lleol yn barnu na fyddai'n rhesymol disgwyl i ysgol sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig angenrheidiol gan ddefnyddio ei hadnoddau.
O'r herwydd, caiff datganiadau gan amlaf eu rhoi mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion mwy cymhleth, ond nid ydym yn teimlo bod y drefn yn ddigon clir i blant a phobl ifanc, eu rhieni, ysgolion, awdurdodau lleol neu unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y mater hwn.

- **Golyga'r ffaith nad oes meini prawf clir ynghylch pryd y dylai datganiad gael ei roi a phwy ddylai gael datganiad fod cryn anghysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran eu dulliau gweithredu.**

Mae awdurdodau lleol yn gweithredu polisïau gwahanol iawn o safbwynt pryd y dylai datganiadau gael eu rhoi a phwy ddylai gael datganiad. O'r herwydd gallai plentyn ag anghenion penodol sy'n byw o fewn ardal un awdurdod lleol dderbyn datganiad er na fydd plentyn â'r un anghenion mewn ardal arall o bosibl yn derbyn datganiad. Yn ogystal, mae cryn amrywiad rhwng awdurdodau lleol o safbwynt cyfran gyffredinol y plant sy'n derbyn datganiadau. Er y gall lefel ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plentyn heb ddatganiad fod cystal â'r ddarpariaeth ar gyfer plentyn sydd â datganiad mae sefyllfa o'r fath yn ymddangos yn annheg ac yn anghyfartal.

- **Bernir nad yw'r Cod Ymarfer AAA presennol bob amser yn cael ei weithredu'n llwyr neu fod gwahanol awdurdodau lleol yn ei ddehongli'n wahanol.**

Er nad ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod methiant systemig wrth weithredu'r Cod Ymarfer AAA, rydym yn cydnabod bod ei statws presennol fel canllawiau y mae'n rhaid i'r cyrff perthnasol 'roi sylw iddynt' yn golygu bod cryn amrywiaeth o safbwynt dehongli'n lleol. Dylai awdurdodau lleol ac eraill fod â chyfres fwy clir o ffiniau y dylent weithio oddi mewn iddynt er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd mwy cyson.

- **Mae'n annheg fod y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion mwy cymhleth wedi'i diogelu drwy ddatganiad ond nad yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion llai cymhleth wedi'i diogelu'n statudol.**

Er nad ydym yn credu bod y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc ag AAA nad oes ganddynt ddatganiad (hy y rhai a fyddai'n cael eu cynnwys yn y categorïau Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, fel y'u diffiniwyd yn y Cod Ymarfer AAA) o anghenraid yn annigonol – yn wir, yn y mwyafrif helaeth o achosion credwn fod y lefelau presennol o gefnogaeth yn bodloni eu hanghenion – credwn y dylai plentyn neu berson ifanc fod â hawl i ddarpariaeth sy'n bodloni ei anghenion, pa bynnag mor gymhleth ydynt. Nid yw'n ymddangos yn deg fod y system yn seilio hawl neu ddiogelwch ar lefel anghenion plentyn neu berson ifanc.

- **Gall ymddiriedaeth rhwng rhieni ac awdurdodau lleol neu ysgolion gael ei thanseilio, gan arwain at anghydfod.**

Mae'r diffyg hawl statudol i ddarpariaeth ar gyfer plant a gynorthwyir drwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn golygu y gallai rhieni geisio sicrhau datganiad ar gyfer eu plentyn er nad oes gwir angen datganiad o ystyried ei anghenion. Gallai rhieni fod yn bryderus ynghylch y ffaith bod diffyg unrhyw ddiogelwch statudol, o safbwynt Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn benodol,

yn golygu y gallai'r ddarpariaeth gael ei dirwyn i ben ar unrhyw adeg. Efallai y gallai rhieni hefyd deimlo'n llai hyderus bod eu plentyn yn derbyn y ddarpariaeth sy'n briodol i'w anghenion os nad oes ganddo ddatganiad.

Lle nad yw awdurdod lleol yn cynnal asesiad statudol mewn ymateb i gais gan riant, neu lle nad yw'r asesiad statudol yn arwain at ddatganiad, gall rhieni deimlo bod anghenion eu plentyn yn cael eu hanwybyddu neu eu diystyru. Mae hyn yn effeithio ar ymddiriedaeth rhieni yn eu hawdurdod lleol. Gall yr anghydfodau sy'n deillio o hyn fod yn llafurus o ran amser, yn ddrud a hefyd beri cryn straen i bawb perthnasol, a gallant hyd yn oed beri gofid i'r plentyn neu'r person ifanc a'r teulu.

- **Mae'n anodd mabwysiadu dull hyblyg o safbwynt cyflwyno darpariaeth addysgol arbennig.**

Mae'r gwahaniaethu presennol rhwng plant a phobl ifanc sydd â datganiadau a'r rhai nad oes ganddynt ddatganiadau yn llesteirio unrhyw ddull hyblyg o sicrhau darpariaeth.  Ar ben hynny, unwaith y bydd y broses asesu statudol sy'n gymhleth ac yn llafurus o ran amser wedi'i rhoi ar waith, a bod y datganiad wedi'i gymeradwyo, gall teuluoedd a gwasanaethau ofni ceisio ei newid yn y dyfodol oherwydd bod ofn arnynt y gallent golli'r cymorth sydd wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol neu oherwydd bod y broses ei hun yn cael ei hystyried yn un sy'n peri gormod o straen. Golyga hyn ei bod hi'n anodd addasu lefel a natur y ddarpariaeth dros amser er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n briodol i anghenion unigolyn a allai newid.

- **Mae'n bosibl y gallai'r trefniadau presennol ar gyfer pobl ifanc ag AAD amharu ar drosglwyddiad didrafferth rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16 a gallent olygu nad yw'r ddarpariaeth ôl-16 mor effeithlon ag y dylai fod.**

O dan y trefniadau deddfwriaethol presennol mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am asesu dysgwyr ôl-16 sydd ag AAD ac sydd wedi gadael yr ysgol neu sydd ar fin gadael yr ysgol. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth arbenigol ôl-16 lle y bo angen.  Golyga hyn nad yw awdurdodau lleol yn gyfrifol am addysg plentyn neu berson ifanc ag AAD a arferai fod â datganiad o AAA tra roedd yn yr ysgol. O'r herwydd nid oes unrhyw ysgogiad iddynt gynllunio ar gyfer anghenion addysgol ôl-16 plant a phobl ifanc o'r fath na chydweithredu â sefydliadau AB ac eraill i sicrhau parhad a chynnydd o ran eu dysgu. Credwn y gallai hyn olygu bod y ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag AAD yn llai effeithlon ac effeithiol nag y gallai fod fel arall.

Yn ogystal, pan fydd dysgwyr ag AAD yn mynd i addysg bellach neu'n hyfforddi efallai na fydd modd i'r darparwr dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol am y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.  Golyga hyn nad yw mor hawdd i'r darparwr sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn y ddarpariaeth ychwanegol sydd ei hangen arno o'r dechrau'n deg.  Er y dylai'r wybodaeth hon gyd-fynd â'r asesiadau a wnaed

o dan Adran 140 o Ddeddf 2000, golyga'r ffaith mai Gweinidogion Cymru ac nid yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiadau hyn fod hyn yn llai tebygol o ddigwydd.

Yn olaf, mae cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru am sicrhau lleoliadau arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny ag AAD nad oes modd bodloni eu hanghenion o fewn y sector AB prif ffrwd yn tanseilio effeithlonrwydd y broses. Gan nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth flaenorol am addysg y plentyn neu'r person ifanc a chan na fuont ynghlwm wrth yr addysg hon mae cryn oedi yn aml o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch cyllido lleoliadau arbenigol gan fod angen i'r Gweinidogion sicrhau'r dystiolaeth angenrheidiol neu drafod ag asiantaethau eraill o safbwynt anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol plentyn neu berson ifanc. Byddai modd datrys y materion hyn lawer yn gynharach os byddai'r un corff yn gyfrifol am addysg y plentyn neu'r person ifanc hwnnw cyn iddo droi'n 16 oed ac ar ôl hynny.

- **Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol i 'gymeradwyo' a 'chofrestru' ysgol annibynnol i dderbyn disgyblion ag AAA yn creu system effeithiol ar gyfer sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael nac ar gyfer pennu pwy sy'n gyfrifol am hyn.**

Gallai fod yn fwy priodol i rai plant a phobl ifanc ag AAA fynychu ysgol annibynnol fel bod modd bodloni eu hanghenion addysgol yn well. Mae'n rhaid i unrhyw ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion â datganiad o AAA gael ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 ("adran 347").Gall cymeradwyaeth o dan adran 347 fod yn gymeradwyaeth gyffredinol sy'n golygu bod yr ysgol wedi'i chymeradwyo i dderbyn unrhyw ddisgybl â datganiad o AAA[29]. Mae rheoliadau a gaiff eu llunio o dan adran 347 ("y rheoliadau cymeradwyo") yn nodi'r meini prawf i'w hystyried wrth gymeradwyo'r ysgol. Os nad oes gan yr ysgol gymeradwyaeth gyffredinol ond bod disgybl ag AAA yn dymuno ei mynychu byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi caniatâd.

Yn ogystal, ac er mwyn gweithredu fel ysgol annibynnol, mae'n rhaid i ysgol gael ei chofrestru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 ("adran 160"). Fel rhan o'r broses gofrestru gall ysgol annibynnol hefyd gael ei chofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA, os oes ganddynt ddatganiad ai peidio. Caiff cais i gofrestru gan unrhyw ysgol ei asesu gan Estyn yn unol â'r Safonau Ysgolion Annibynnol. Caiff y safonau hyn eu pennu mewn rheoliadau[30].

[29] Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994.
[30] Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 a wnaed o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002.

Credwn fod y drefn bresennol ar gyfer gweinyddu proses adran 347 yn ddiangen ac yn dyblygu'r broses sy'n ofynnol ar gyfer ystyried cais o dan adran 160 i gofrestru ysgol fel y gall dderbyn disgyblion ag AAA.

Credwn nad yw'r ffaith bod angen cymeradwyaeth gyffredinol neu ganiatâd gan Weinidogion Cymru ar gyfer lleoliadau unigol o dan adran 347 yn rhoi unrhyw sicrwydd ystyrlon y caiff plentyn neu berson ifanc ag AAA ei dderbyn i ysgol annibynnol. Awdurdodau lleol, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y lleoliad a gynigir yn bodloni orau anghenion y plentyn o dan eu dyletswydd statudol i ddarparu addysg briodol.

## 1.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil?

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon sydd gennym ynghylch y broses bresennol rydym yn cynnig y bydd Bil yn:

1. **Cyflwyno'r termau 'anghenion dysgu ychwanegol' a 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' a fydd yn disodli'r termau presennol sef 'anghenion addysgol arbennig' a 'darpariaeth addysgol arbennig'.**

Awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012 y gallai fod modd mabwysiadu'r term 'anghenion ychwanegol' (AY). Fodd bynnag, er bod rhai rhanddeiliaid yn hapus â'r bwriad i gyflwyno'r term hwn teimlai eraill y byddai ei gwmpas eang posibl (a allai gynnwys anghenion nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg neu hyfforddiant plentyn neu berson ifanc neu anghenion nad ydynt yn effeithio ar yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw) yn lleihau'r pwyslais ar anghenion dysgu plant a phobl ifanc. Teimlwyd y gallai lleihau'r ffocws olygu bod llai o adnoddau ar gael a gallai leihau effaith ymyriadau. Rydym wedi pwyso a mesur y mater hwn yn ofalus ac wedi dod i'r casgliad y dylid parhau i bwysleisio'r elfen 'ddysgu' a'r angen i gyflawni potensial addysgol.

O'r herwydd rydym yn cynnig diddymu'r termau 'anghenion addysgol arbennig' a 'darpariaeth addysgol arbennig' a chyflwyno termau newydd sef 'anghenion dysgu ychwanegol' a 'darpariaeth ddysgu ychwanegol', ar wyneb Bil. Bydd y Bil yn nodi'r union ddiffiniadau ond rydym yn cynnig y bydd y term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cynnwys plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt er mwyn eu galluogi i elwa i'r eithaf ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt.

Ni fyddwn yn barnu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY oherwydd bod iaith ei gartref yn wahanol i iaith ei ysgol, a dyna'r sefyllfa bresennol o safbwynt AAA yn ogystal. Yn yr un modd, ni fyddai plant a phobl ifanc mwy abl a galluog yn cael eu hystyried fel rhai ag ADY ar sail y ffaith eu bod yn fwy abl a galluog. Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o gyfleoedd ar y plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn eu

galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu ond nid ydym yn credu bod hyn yn gyfwerth â darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Bydd y term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' yn diffinio'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno er mwyn bodloni anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc.  Rydym yn cynnig na fydd hyn yn newid sylweddol i'r diffiniad presennol o 'ddarpariaeth addysgol ychwanegol', o ran y ffaith y bydd yn berthnasol i ddarpariaeth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant neu bobl ifanc o'r un oedran neu sy'n wahanol iddi, ac eithrio mewn ysgolion arbennig. Byddwn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai fod yn ddarpariaeth o wahanol wasanaethau sydd y tu hwnt i fyd addysg, gan ganolbwyntio ar y rheidrwydd i alluogi plentyn neu berson ifanc i fanteisio ar gyfleoedd dysgu.

Ein bwriad yw sicrhau bod y diffiniad o ADY yn cynnwys yr holl ddysgwyr y bernir bod ganddynt AAA ar hyn o bryd (hy plant a phobl ifanc a gefnogir drwy Gweithredu gan yr Ysgol/ Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy a'r rhai â datganiadau o AAA). Rydym hefyd yn bwriadu sicrhau bod y term yn cael ei ddefnyddio yn ogystal ar gyfer cynnwys pobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed y nodir bod ganddynt AAD ar hyn o bryd.

**2. Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a fydd yn disodli datganiadau AAA, asesiadau adran 140 a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol.**

Hoffem sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yr un hawliau i dderbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt a bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau'r ddarpariaeth honno. Credwn mai'r ffordd symlaf a thecaf o waredu'r anghysonderau a'r annhegwch sy'n deillio o'r categorïau statudol ac anstatudol presennol o AAA, a'r gwahanol systemau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau AB, yw rhoi'r hawl i bob plentyn neu berson ifanc ag ADY i dderbyn yr un cynllun statudol - y CDU - sy'n cydnabod ei anghenion dysgu fel rhai sydd yr un mor bwysig, pa bynnag mor gymhleth ydynt. Yn fwyfwy, gan y bydd CDU yn cwmpasu sbectrwm eang o anghenion bydd modd eu diwygio a'u haddasu dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn amgylchiadau neu anghenion plentyn neu berson ifanc. O'r herwydd dylai plant a phobl ifanc a'u teuluoedd deimlo'n fwy hyderus y bydd y gefnogaeth sy'n briodol i'w hanghenion presennol yn parhau i gael ei darparu a'i diogelu.

**3. Ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch Cod Ymarfer ar ADY a'i gyhoeddi, a allai gynnwys:**

- **gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol (awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB, Unedau Cyfeirio Disgyblion, byrddau iechyd lleol a'r Tribiwnlys yn fwy na thebyg) weithredu'n unol â hwy;**
- **canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi sylw dyledus iddynt.**

Hoffem sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol ac y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu oddi mewn iddynt. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y gofynion deddfwriaethol yr ydym yn bwriadu eu gorfodi a chanllawiau ynghylch manylion ymarferol y modd yr ydym yn disgwyl i'r dyletswyddau hyn gael eu gweithredu. Rydym felly'n cynnig y bydd Cod Ymarfer statudol newydd yn darparu gofynion gorfodol ynghyd â chanllawiau ymarferol ar y modd yr ydym yn disgwyl i ddyletswyddau statudol gael eu cyflawni. Byddwn yn cynnwys ein rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol wrth i ni ddatblygu Cod Ymarfer drafft ar ADY a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch maes o law. Yn ogystal, rydym yn cynnig y byddai'n rhaid i'r Cod (ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol) gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn y gall gael ei gyhoeddi.

Lle nad yw awdurdodau lleol neu ysgolion a gynhelir yn cyflawni dyletswyddau gorfodol o dan y Cod byddai modd i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd presennol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Byddwn yn ystyried, ar y cyd â rhanddeiliaid, pa ddulliau gorfodi a dulliau monitro eraill y gallai fod eu hangen er mwyn sicrhau bod pawb yn glynu wrth y Cod Ymarfer newydd.

I'r graddau gorau posibl, hoffem nodi yn y Cod Ymarfer newydd yr holl wybodaeth berthnasol am y modd y caiff y system ADY ei gweithredu. O'r herwydd byddwn yn ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o Reoliadau (ar ffurf offerynnau statudol), gan eu cyfyngu o bosibl i'r gweithdrefnau y mae'r Tribiwnlys yn gweithredu oddi mewn iddynt.

**4. Nodi'r gofynion lleiaf o safbwynt gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU, a'i gwneud hi'n ofynnol i'r Cod nodi gofynion gorfodol manwl a fydd yn ategu hyn.**

Bydd y Bil yn disgrifio'r wybodaeth allweddol y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU. Ni fydd y rhestr yn gyflawn ond bydd yn nodi'r gofynion lleiaf a gaiff eu mandadu mewn Cod Ymarfer.

Rydym yn disgwyl i'r rhestr ar wyneb y Bil gynnwys anghenion y plentyn neu'r person ifanc; y canlyniadau cymeradwy y ceisir eu cyflawni; y ddarpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny; Cynllun Gweithredu sy'n nodi pwy fydd yn cyflawni'r ymyriadau cymeradwy, sut y byddant yn eu cyflawni ac erbyn pryd y byddant yn cael eu cyflawni; sut y caiff canlyniadau ymyriadau eu mesur a pha asiantaeth fydd yn gyfrifol am gyllido pob ymyriad.

Bydd y Cod Ymarfer hefyd yn nodi'r gofynion o safbwynt diwyg a chynnwys CDU ac amserlenni ar gyfer llunio ac adolygu CDU. Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd nodi anghenion plentyn neu berson ifanc a bodloni'r anghenion hynny mor gyflym â phosibl a bydd yr amserlenni yn y Cod yn adlewyrchu hyn.

O safbwynt plant a phobl ifanc sydd ar fin trosglwyddo rhwng camau addysg a hyfforddiant, neu sy'n gadael addysg a hyfforddiant yn gyfan gwbl, bydd y CDU yn nodi trefniadau ar gyfer cynllunio'r trosglwyddiad. Bydd y Cod Ymarfer yn nodi'r gofynion o ran y trefniadau i'w gwneud ar gyfer cefnogi gwaith cynllunio effeithiol ynghylch trosglwyddo.

O dan y broses newydd ar gyfer ystyried a oes gan rywun ADY bydd y plentyn neu'r person ifanc, y rhieni a'r asiantaethau perthnasol (gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd ac eraill yn ôl eu hanghenion) oll yn cydweithio'n unol â dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn pennu a oes angen CDU. Rydym yn cydnabod y bydd gan blant a phobl ifanc ag anghenion eang iawn eu cwmpas o safbwynt amrywiaeth a chymhlethdod hawl i CDU. O'r herwydd bydd y broses i'w mabwysiadu, ac yn arbennig hyd a lled a graddau'r cyfraniad arbenigol, yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, o safbwynt y plant hynny ag anghenion llai cymhleth, efallai mai dim ond staff yr ysgol fydd ynghlwm wrth y broses. Dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd ar gyfer plant o fewn y categori Gweithredu gan yr Ysgol. Bydd angen lefelau amrywiol o gyngor, cefnogaeth neu gyllid allanol ar blant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth, yn debyg i'r rhai sy'n rhan o Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu'r rhai sydd â datganiad. Bydd y Cod Ymarfer yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â'r mater hwn a bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol roi sylw dyledus iddynt. Bydd pwyslais ar sicrhau bod natur y broses yn cyd-fynd â lefel yr angen a'r ymyrraeth sy'n ofynnol.

**5. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi CDU a sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r CDU yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bod ganddo ADY ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.**

Rydym yn cynnig mai awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am y ddyletswydd statudol ar gyfer paratoi a gweithredu CDU, a byddant hefyd yn sicrhau atebolrwydd o ran cyflwyno darpariaeth ar gyfer ADY. Golyga hyn y byddwn yn disgwyl i awdurdodau

lleol roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cyflawni, monitro ac adolygu eu dyletswyddau o safbwynt ADY.

Yn ymarferol rydym yn rhagweld na fyddai'r awdurdod lleol yn ymwneud llawer â'r plant a'r bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt ar hyn o bryd ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy gan y byddai'r ysgol, y feithrinfa neu'r UCD yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod anghenion y dysgwr yn cael eu bodloni. Awdurdodau lleol, fodd bynnag, fyddai'n gyfrifol yn y pendraw am gyflawni eu dyletswyddau newydd felly byddai angen iddynt sefydlu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu’r sefyllfa.

Byddai awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am gydlynu ac adolygu CDU ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY hyd at 25 mlwydd oed sy'n mynychu sefydliadau AB neu ddarpariaeth arbenigol ôl-16 (a byddai ganddynt bŵer i gynnal CDU hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person ifanc yn troi'n 25 oed). Byddai’r awdurdod lleol yn parhau'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc ag ADY yn cael eu bodloni. Credwn y bydd hyn yn ei gwneud hi lawer yn haws i blant a phobl ifanc ag ADY drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach a bydd hefyd yn sicrhau bod gan y sefydliad AB yr holl wybodaeth berthnasol am anghenion y plentyn neu’r person ifanc. Eto i gyd, byddai sefydliadau AB yn parhau i dderbyn cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n addas i anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY. Byddai'r ddyletswydd a ddisgrifir yng nghynnig 6 isod yn ategu hyn.

Byddai modd i awdurdodau lleol ddirwyn CDU i ben ar gyfer plant a phobl ifanc a fanteisiodd ar gyfleoedd ôl-16 y tu allan i ysgol, sefydliad AB neu leoliad AB arbenigol (fel addysg uwch neu ddysgu seiliedig ar waith) neu na wnaeth fanteisio ar y cyfleoedd a bennwyd ar eu cyfer o fewn y sector ysgolion neu AB o fewn amserlen benodol (i'w phennu yn y Cod Ymarfer). Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd ynghynt, byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynllunio'r trosglwyddiad wedi'u gwneud.

Byddai dyletswydd ar awdurdodau lleol i bennu a oedd angen parhau i gynnal CDU, neu gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ynddo, petai plentyn yn dechrau derbyn ei addysg gartref.  Bydd modd i awdurdod lleol, ar gais gan riant, sefydlu CDY ar gyfer plentyn sy'n cael ei addysgu gartref. Bydd y Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch y materion hyn.

**6. Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB ac UCD wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn CDU plentyn neu berson ifanc yn cael ei darparu.**

Mae dyletswydd debyg eisoes yn bodoli mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir, meithrinfeydd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ond hoffem estyn hyn i sefydliadau AB er mwyn hwyluso'r gwaith o greu system sy'n cynnwys pobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed. Bydd y ddyletswydd newydd ar y cyrff hyn i 'wneud pob ymdrech' – hynny yw, gwneud popeth rhesymol- yn dibynnu ar y graddau y mae'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth o addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau.

Gallai CDU hefyd gael eu defnyddio mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai a gynhelir gan gynnwys ysgolion annibynnol a darparwyr blynyddoedd cynnar gwirfoddol neu breifat ond ni fyddai'r lleoliadau hynny o dan ddyletswydd i 'wneud pob ymdrech' o safbwynt cyflwyno'r ddarpariaeth.

**7. Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer dysgwyr ôl-16 lle y mae'r CDU yn nodi ei bod yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion plentyn neu berson ifanc.**

Er mwyn cyflwyno'r newid hwn rydym yn cynnig diddymu Adran 140 o Ddeddf 2000, cymhathu'r cyfrifoldeb ym mhroses newydd y CDU ar gyfer asesu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY o safbwynt addysg a hyfforddiant ôl-16 a rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol o ran sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth breswyl lle y mae'n ofynnol er mwyn bodloni anghenion sydd wedi'u hasesu o ran addysg a hyfforddiant.

Credwn y byddai'r newid hwn yn gwella'r broses drosglwyddo, gan annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn sicrhau cefnogaeth a gwella'r ddarpariaeth leol ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc ag AAD cymhleth. Byddai hefyd yn rhagor o gymhelliant i awdurdodau lleol o safbwynt ffurfio'r cysylltiadau rhwng adrannau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol fel bod modd i blentyn neu berson ifanc drosglwyddo'n effeithiol i addysg bellach.

Byddai'r cyllid presennol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol.

**8. Gwahardd lleoli unrhyw blentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i ddarparu'r math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.**

Credwn mai'r ffordd symlaf o waredu'r dyblygu diangen o fewn y trefniadau 'cymeradwyo' a 'chofrestru' yw diddymu adran 347 ac atgyfnerthu'r modd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru er mwyn gallu derbyn disgyblion. Rydym yn cynnig diwygio adran 160 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion sydd wedi'u pennu fel rhai ag ADY ddangos fel rhan o'r broses gofrestru y gall gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol. Byddwn yn cydweithio â cholegau arbenigol ac annibynnol er mwyn ystyried a allai dull tebyg gael ei gyflwyno ar gyfer lleoliadau o'r fath.

Rydym yn cynnig y byddai awdurdodau lleol yn cael eu gwahardd rhag lleoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i ddarparu'r math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Ni fydd y broses lle y caiff ysgol annibynnol ei chofrestru o dan adran 160, nac ychwaith rôl bresennol Estyn o fewn y broses honno, gan gynnwys ymweliadau monitro o ysgolion annibynnol cofrestredig ar gyfer ADY, yn newid. Fodd bynnag, cynigir hefyd y dylai fod yn ofynnol i gyhoeddi crynodeb o'r holl adroddiadau ymweliad monitro ar ysgolion annibynnol cofrestredig ar gyfer ADY, a gynhelir gan Estyn, ar-lein. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i awdurdodau lleol a rhieni dderbyn gwybodaeth am addasrwydd darpariaeth mewn ysgol annibynnol a bydd yn galluogi penderfyniadau cytbwys wrth ystyried lleoli plentyn neu berson ifanc ag ADY mewn ysgol annibynnol.

# 2. Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol

## 2.1 Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Caiff y prosesau ar gyfer asesu a hefyd lunio, cyhoeddi ac adolygu datganiad AAA eu nodi yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002. Mae'r Cod Ymarfer AAA yn cynnwys canllawiau ynghylch y materion hyn ac ynghylch pennu AAA.

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol i'w helpu i arfer ei swyddogaethau AAA. Mae rhai eithriadau ynghlwm wrth hyn:

- nid oes angen eu cymorth ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol;
- mae'r cais yn afresymol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddynt;
- nid yw'r cais yn cyd-fynd â'u dyletswyddau statudol eu hunain;
- mae'n amharu'n ddiangen ar y gallu i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

## 2.2 Pam yr ydym yn cynnig newid?

- **Mae rhai rhieni a theuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddatganiadau AAA a ystyrir yn brosesau dyrys, biwrocrataidd ac aneffeithlon.**

Gall y broses bresennol o roi datganiadau, lle y mae awdurdod lleol yn derbyn cais ar gyfer asesiad ac yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylai asesiad fynd rhagddo, ac yna a ddylai'r plentyn neu'r person ifanc gael datganiad, wneud i deuluoedd deimlo bod y broses yn cael ei chyflawni drostynt ac nad oes ganddynt fawr ddim rheolaeth drosti. Gall hyn, yn ei dro, arwain at 'ddiwylliant o wrthdaro' lle y mae teuluoedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau bod eu plant yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Yn aml mae anghytundebau hir ynghylch a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn bodloni'r meini prawf ar gyfer datganiad ac ynghylch a ddylai dderbyn cefnogaeth sy'n fwy drud ar draul gweithredu camau ymyrryd cynharach a mwy cost-effeithiol. Hyd yn oed os na fydd anghytundeb, mae'r amserlenni presennol a nodir mewn rheoliadau'n pennu y gallai gymryd hyd at 26 wythnos i gyflwyno datganiad o'r dyddiad y gofynnir am asesiad statudol.

- **Mae rhieni hefyd yn pwysleisio'r ffaith y gall y system fod yn rhy araf i addasu yn achos y plant sydd â datganiad ond y mae eu hanghenion yn newid neu y mae eu cyflwr yn gwella neu'n gwaethygu.**

Golyga'r gweithdrefnau anhyblyg sydd ynghlwm wrth y broses o lunio a diwygio datganiad nad oes modd ei newid yn gyflym na'n effeithlon er mwyn ymateb i anghenion a all newid. Golyga'r diffyg hyblygrwydd hwn y gallai plant a phobl ifanc barhau i dderbyn math penodol o gefnogaeth er nad yw bellach yn berthnasol i'w hanghenion.

- **Mae tystiolaeth o adroddiadau Estyn ac adolygiadau eraill o bolisi ar AAA wedi nodi bod y cydweithio rhwng asiantaethau amrywiol weithiau'n wan ac yn aneffeithlon.**

Mae angen i wasanaethau gydweithio mewn modd hyblyg er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn derbyn cefnogaeth gyson a chydlynus sy'n eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau positif. Awgryma tystiolaeth gan Estyn ac eraill nad dyma'r sefyllfa bob amser ac o'r herwydd gall y gefnogaeth fod yn llai effeithiol.

- **Nid yw camau adnabod ac ymyrryd bob amser yn cael eu cymryd ar yr adeg gynharaf.**

Ceir llawer iawn o dystiolaeth sy'n dangos manteision ymyrryd yn gynnar, o safbwynt deilliannau'r plentyn ac o safbwynt cost y gefnogaeth. Mae pennu anghenion plant o safbwynt cefnogaeth yn gwbl allweddol er mwyn eu galluogi i ffynnu, ac mae hefyd yn galluogi rhieni a gweithwyr proffesiynol i roi'r camau priodol ar waith cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae cydweithredu agos a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn gwbl allweddol. Credwn nad yw'r cydweithredu presennol rhwng asiantaethau bob amser yn ddigonol er mwyn sicrhau ymyriadau cynnar a llwyddiannus ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA. Yn ogystal, nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu mewn modd mor effeithiol ag y dylai gael.

- **Gallai'r gefnogaeth arbennig sydd ei hangen ar blant a'u teuluoedd gael ei chynnig yn hwyr, a hynny heb fod angen.**

Mae hyn yn aml yn deillio o'r modd y caiff y system bresennol ei gweithredu. Er enghraifft, gall fod cryn oedi o bryd i'w gilydd o safbwynt y broses o lunio datganiad tra bo cyfres o asesiadau clinigol ac asesiadau eraill yn cael eu cynnal er mwyn diystyru cyflyrau posibl ac er mwyn cael diagnosis swyddogol. Er nad oes yn rhaid cael diagnosis cyn y caiff datganiad ei lunio dyma sy'n digwydd mewn rhai ardaloedd. Er y gall diagnosis fod o gymorth ar gyfer nodi'r rhesymau pam y gallai plentyn neu berson ifanc wynebu rhwystrau wrth geisio cyflawni cynnydd, nid ydym o'r farn y dylid dibynnu ar ddiagnosis er mwyn gallu derbyn y gefnogaeth sydd ar gael.

- **Nid yw swyddogaeth gydlynu bwysig Cydlynwyr AAA wedi'i diffinio'n dda a gall amrywio'n sylweddol.**

Caiff swyddogaeth bresennol y Cydlynwyr AAA ei dehongli'n wahanol ar draws gwahanol leoliadau ac awdurdodau. Ceir diffyg cefnogaeth a hyfforddiant cyson ar gyfer Cydlynwyr AAA sy'n chwarae rhan allweddol o fewn y system bresennol ac a fydd yn chwarae rhan yr un mor bwysig wrth i ni sefydlu ein system newydd arfaethedig ar gyfer ADY.

- **O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, nid yw'r asesiad statudol AAA ond yn un o nifer o asesiadau ac nid yw'r prosesau unigol wedi'u hintegreiddio'n dda.**

Gall gwaith asesu a chynllunio fod yn gymhleth iawn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y gall llawer ohonynt fod yn wynebu rhwystrau o safbwynt sawl agwedd ar eu datblygiad.  Yn aml mae sawl gweithiwr proffesiynol yn rhan o'u bywydau a gallai'r asesiad o'u AAA orgyffwrdd â chynlluniau statudol eraill fel eu 'Cynllun Addysg Personol' sy'n rhan o'r broses cynllunio ac adolygu gofal cymdeithasol.  Nid yw hyn bob amser yn cyd-fynd yn dda â'r prosesau presennol ar gyfer cynllunio ac asesu o safbwynt AAA, ond mae'n bwysig bod unrhyw AAA gan blant sy'n derbyn gofal yn cael eu hadnabod yn gynnar fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Gall hyn weithiau arwain at gynlluniau anghyson o safbwynt cefnogaeth. Mewn achosion eraill, gallai olygu dyblygu ymdrech a defnydd aneffeithlon o adnoddau pan fydd llawer o'r un gweithwyr proffesiynol ynghlwm wrth brosesau asesu a chynllunio niferus ar gyfer yr un plentyn.  O safbwynt y plentyn neu'r person ifanc gall olygu profiad biwrocrataidd a chymhleth lle y mae'n rhaid ailadrodd yr un wybodaeth sawl gwaith ar gyfer gwahanol bobl neu wahanol ddibenion.

## 2.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil?

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon sydd gennym ynghylch y broses bresennol rydym yn cynnig y bydd Bil yn:

**9. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn cael eu cynnwys, yr ymgynghorir â hwy ac y gwrandewir ar eu barn o'r dechrau'n deg a chydol y broses asesu a chynllunio sydd ynghlwm wrth y CDU.**

Rydym yn dymuno atgyfnerthu'r dyletswyddau a'r canllawiau presennol ynghylch cynnwys plant bobl ifanc a'u rhieni, gan symud at ddull sy'n canolbwyntio llawer mwy ar yr unigolyn er mwyn nodi anghenion a chamau priodol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau'n fuan ynghylch cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn annog pob awdurdod lleol i fabwysiadu'r dull

hwn cyn y daw'r diwygiadau deddfwriaethol i rym.  Ein bwriad yw datblygu CDU yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y bydd y Cod Ymarfer yn cynnwys canllawiau clir ynghylch sut yr ydym yn disgwyl i hyn gael ei weithredu.

**10. Ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau bod CDU yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf, a hefyd ei gwneud hi’n bosibl iddynt gael eu cynnal yn gynharach neu'n fwy aml lle y bo hynny'n briodol.**

Rydym yn cynnig y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod adolygiadau o CDU yn cael eu cynnal ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Bydd hi'n ofynnol i'r CDU gael ei adolygu bob 12 mis, man lleiaf. Gallai fod yn ofynnol cynnal adolygiadau mwy aml o rai achosion yn yr un modd ag y caiff CDU yn aml eu hadolygu bob tymor mewn ysgolion ar hyn o bryd. Byddem yn disgwyl i'r ymyriadau a nodir yng nghynllun gweithredu'r CDU gynnwys y cerrig milltir a fydd yn ysgogi adolygiad o'u heffeithiolrwydd. Bydd modd i blant a phobl ifanc a'u rhieni ofyn am adolygiadau cynharach.

Rydym yn cynnig y bydd y Bil yn sicrhau bod modd i'r Cod Ymarfer gynnwys darpariaeth bellach ynghylch y broses adolygu. Gallai'r Cod hefyd gynnwys canllawiau ynghylch cwmpas sicrhau bod adolygiad o CDU yn cael ei gynnal mewn modd cyson ac ar yr un pryd ag adolygiadau eraill amlasiantaeth ynghylch yr un plentyn neu berson ifanc.

**11. Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch adnabod plant ag ADY yn gynnar iawn, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol.**

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd ran i'w chwarae o safbwynt adnabod anghenion plant yn gynnar. Er enghraifft, o safbwynt plant nad ydynt eto wedi cyrraedd oedran ysgol statudol, mae ymwelwyr iechyd mewn sefyllfa dda iawn i adnabod plant a allai ddangos arwyddion o broblemau datblygiadol cynnar, ac mae gan bediatregwyr swyddogaeth allweddol o safbwynt cynnal asesiadau clinigol pellach o anghenion. Yn yr un modd, bydd gan Ganolfannau Plant Dechrau’n Deg mewn ardaloedd difreintiedig swyddogaeth allweddol o safbwynt plant ag ADY a'u teuluoedd. Gallant ddwyn ynghyd wasanaethau iechyd, gwasanaethau dysgu cynnar a gwasanaethau eraill ar gyfer y blynyddoedd cynnar a hefyd gynnig cyfle i ymateb mewn modd integredig. Mae angen i ni sicrhau bod pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn derbyn pob cymorth i gydweithio'n agos â phobl eraill, gan gynnwys cydweithwyr o'r awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt yn ei derbyn.

Bydd y Cod yn darparu gwybodaeth a fydd o gymorth i ymarferwyr sy'n cydweithio â phlant o dan oedran ysgol gorfodol (fel y rhai sy'n gweithio mewn meithrinfeydd ysgol a gynhelir a rhai nas cynhelir, darparwyr gofal dydd yr awdurdod lleol a darpariaeth gofal dydd arall sy'n gofrestredig) er mwyn helpu i adnabod ADY mor gynnar â phosibl a sicrhau bod pob plentyn yn elwa ar wahanol brofiadau dysgu sy'n eu hysgogi. Bydd yn adlewyrchu datblygiadau polisi eraill gan Lywodraeth Cymru, fel yr ymrwymiad i gyflwyno Fframwaith Datblygu ac Asesu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n gwbl allweddol i ddatblygiad plant ifanc fel cyfathrebu ac iaith, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a datblygiad corfforol.

**12. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau AB gydweithredu a rhannu gwybodaeth wrth asesu, cynllunio ac wrth gyflawni darpariaeth er mwyn bodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.**

Rydym yn bwriadu ailddatgan darpariaethau presennol Deddf 1996 ond hefyd eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys dyletswydd i rannu gwybodaeth. Caiff y dyletswyddau eu hestyn i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 mlwydd oed sydd mewn addysg neu hyfforddiant ac y mae'r diffiniad newydd o ADY yn berthnasol iddo.

Caiff y dyletswyddau hyn eu cefnogi a'u hatgyfnerthu gan ddarpariaethau deddfwriaethol eraill gan gynnwys y rhai o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau i gydweithredu â'i bartneriaid a sicrhau bod gofal a chefnogaeth yn cael ei hintegreiddio er mwyn gwella llesiant (gan gynnwys llesiant o safbwynt addysg a hyfforddiant) plant a phobl ifanc [31]. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi llunio deddfwriaeth ar gyfer creu dyletswydd statudol i gydweithredu o fewn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol, partneriaid iechyd a phartneriaid eraill i gydweithredu.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried cyngor, gwybodaeth neu safbwyntiau asiantaethau eraill wrth baratoi, gweithredu ac adolygu CDU.

Byddai'r holl wasanaethau y mae'r plentyn a'i deulu'n dibynnu arnynt yn cydweithio â'r teulu er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu o fewn y CDU sy'n adlewyrchu eu huchelgeisiau ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Lle y mae angen mewnbwn gan asiantaethau eraill er mwyn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i orchfygu rhwystrau i ddysgu, bydd y CDU yn cynnwys darpariaeth a gymeradwywyd gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill ynghyd ag addysg.

[31] Yn ôl Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), at ei ddibenion, ystyr llesiant o ran y person yw (ymhlith pethau eraill) llesiant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden.

Ni fydd yn rhaid cael diagnosis ar gyfer sicrhau CDU, fodd bynnag. Os oes diagnosis bydd modd cytuno ar gamau i'w cynnwys ar y cyd ag asesiadau a thystiolaeth arall a fydd yn cynorthwyo'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wneud y penderfyniadau cywir ynghylch yr ymyriadau mwyaf effeithiol.

Lle y mae angen cefnogaeth gan fwy nag un asiantaeth ar blentyn neu berson ifanc, bydd Cynllun Gweithredu'r CDU yn nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r elfennau unigol. Bydd hefyd yn cynnwys ymrwymiad gan bob parti i ddarparu eu gwasanaethau a bydd yn dryloyw ynghylch y cyllid ar gyfer y pecyn o gymorth.

**13. Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau a fydd yn cefnogi arferion gwaith effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau.**

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i newid diwylliant, arferion a dulliau gweithio er mwyn atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau. Nid ydym yn credu mai deddfwriaeth yw gwraidd y broblem, fodd bynnag, nac ychwaith y ffordd orau o gyflawni gwelliannau. Uwchlaw popeth, mae'r rhwystrau i drefniadau gweithio amlasiantaeth ynghlwm wrth ddiwylliannau a systemau: dulliau cyfathrebu ac arferion rhannu gwybodaeth gwael, gwaith cynllunio a gwerthuso nad yw wedi’i ddatblygu'n ddigonol, diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ac asesiadau amlasiantaeth a gaiff eu cwblhau ar wahân i'w gilydd.

Gall dulliau fel y model Tîm o Amgylch y Teulu a Gwaith Pontio Allweddol helpu i sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd yn cyd-fynd â'i gilydd yn well, a gallant fod yn werthfawr iawn lle y mae teuluoedd mewn cysylltiad â llawer o wahanol weithwyr proffesiynol. Nid yw'r rhain yn fodelau statudol a bydd rhwydd hynt i awdurdodau lleol ddatblygu eu dulliau eu hunain sy'n cyd-fynd â'u hamgylchiadau lleol. Nid ydym yn rhagweld y caiff hyn ei newid, ond hoffem fanteisio ar y gwersi a ddysgwyd o fodelau o'r fath a'u llwyddiannau i greu diwylliant lle y mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio mewn partneriaeth â theuluoedd er mwyn sicrhau lle canolog i rieni mewn unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau ynghylch eu plentyn.

Wrth lunio system newydd hoffem ystyried yn ofalus safbwyntiau gweithwyr proffesiynol sy'n deall y ffordd orau o gyflawni'r gwasanaethau hyn ac felly byddwn yn cydweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gweithwyr asiantaeth eraill er mwyn datblygu atebion i'r rhwystrau sy'n atal trefniadau gweithio amlasiantaeth effeithiol. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol er mwyn llunio canllawiau a gofynion clir i'w cynnwys yn y Cod Ymarfer, ar y cyd â mecanweithiau hyfforddi a chymorth eraill fel y bo'n briodol.

Byddwn hefyd yn ystyried y dulliau eraill nad ydynt yn rhai deddfwriaethol a allai fodoli ar gyfer hybu a galluogi'r trydydd sector i gyfrannu'n bositif at y prosesau asesu, cynllunio a chyflenwi. Rydym yn cydnabod bod cyrff y trydydd sector eisoes yn chwarae rhan bwysig ar ran plant a phobl ifanc a byddwn yn ceisio adeiladu ar y gwaith hwn wrth i ni ddatblygu'r systemau sydd ynghlwm wrth ADY.

**14. Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion prif ffrwd ddynodi Cydlynydd ADY.**

Byddai'r swyddogaeth hon yn disodli swyddogaeth y Cydlynydd AAA presennol. Byddwn yn rhoi dyletswydd ar gorff llywodraethu meithrinfa neu ysgol a gynhelir i ddynodi aelod o staff yr ysgol yn berson sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant yn yr ysgol sydd ag ADY. Byddwn yn defnyddio'r Cod Ymarfer newydd i'w gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan Gydlynwyr ADY beth profiad neu gymwysterau yn y maes neu'r ddau, ac i drosglwyddo swyddogaethau eraill i'r cyrff llywodraethu hyn o safbwynt Cydlynwyr ADY. Byddai cwmpas cyfrifoldebau'r Cydlynwyr ADY yn cael ei bennu yn y Cod Ymarfer a byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu canllawiau ynghylch y swydd. Bwriedir ymgynghori ynghylch y canllawiau hyn maes o law. Byddwn yn ceisio sicrhau bod canllawiau'r Cod ynghylch cydlynu ADY hefyd yn berthnasol i sefydliadau AB. Mae gan sefydliadau AB eisoes unigolion sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Ein bwriad yw pennu'r arferion sydd eisoes yn bodoli ac adeiladu arnynt.

**15. Sicrhau bod modd i CDU ddisodli Cynlluniau Addysg Personol (CAP) neu gyflawni eu swyddogaethau o safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.**

O safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, byddai modd i CDU un ai ddisodli'r CAP sydd ei angen ar hyn o bryd ar gyfer y dysgwyr hyn neu gyflawni'r un swyddogaeth â'r Cynllun hwnnw. Rydym yn cydnabod na fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal ADY ond credwn fod y ffaith bod cynnwys tebygol CDU a CAP presennol mor debyg, a'r ffaith bod gan gynifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ADU, yn golygu ei bod hi'n synhwyrol i gyfuno'r cynlluniau hyn.

Rydym wedi edrych ar fodel yr Alban ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn cynnig mabwysiadu darpariaeth debyg yn y Bil lle y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu pob plentyn a pherson ifanc 'sy'n derbyn gofal' er mwyn pennu a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt. Cynigiwn y byddai awdurdodau lleol yn rhoi proses y CDU ar waith ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal er mwyn pennu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc hwnnw ADY. Byddai'r cynllun felly'n pennu unrhyw anghenion o'r fath.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod CDU yn cael eu hystyried, yn creu cysylltiadau â chynlluniau eraill sydd wedi'u llunio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc (er enghraifft, cynlluniau a wneir ar gyfer pobl sy'n gadael gofal) ac yn sicrhau eu bod yn gweithredu yn yr un modd â'r cynlluniau hynny neu yn eu lle, lle y bo hyn yn briodol.

# 3. System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau

## 3.1 Beth yw’r sefyllfa bresennol?

Mae Deddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyngor a gwybodaeth i blant ag AAA a'u rhieni o safbwynt eu hanghenion, gwneud trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau o safbwynt AAA a galluogi plant ag AAA i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Mae Deddf 1996 yn cynnwys darpariaeth yn pennu y gall rhiant gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys yn erbyn:

- penderfyniad i beidio â chydymffurfio â chais i gynnal asesiad statudol o AAA;
- penderfyniad i beidio â rhoi datganiad AAA;
- cynnwys datganiad;
- yr ysgol a gaiff ei henwi yn y datganiad neu yn erbyn y ffaith nad oes unrhyw ysgol yn cael ei henwi;
- penderfyniad i beidio ag ailasesu AAA plentyn lle nad oes asesiad wedi'i gynnal ers o leiaf 6 mis;
- penderfyniad i beidio â newid yr ysgol a gaiff ei henwi mewn datganiad;
- penderfyniad i beidio â chynnal datganiad.

## 3.2 Pam yr ydym yn cynnig newid?

- **Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor yn amrywio ar draws Cymru o safbwynt eu natur a'u heffeithiolrwydd.**

Rydym yn awyddus i sicrhau bod pob rhiant a phlentyn yn derbyn yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt fel bod ganddynt bob hyder yn y system, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac fel bod modd iddynt herio lle y bo angen. Nid yw hyn bob amser yn bosibl ar hyn o bryd. Mae'r adborth gan rieni'n awgrymu eu bod yn aml yn teimlo bod y system yn anodd eu defnyddio ac nad ydynt yn ymwybodol o'r ffordd orau o gael gafael ar wybodaeth am y broses. Nid yw llawer yn deall sut y caiff penderfyniadau eu gwneud sy'n effeithio ar y gefnogaeth y mae eu plentyn yn ei derbyn. Mae sicrhau'r tryloywder hwn yn lleihau gwrthdaro ac yn ennyn ymddiriedaeth. Hoffem sicrhau bod gwybodaeth fwy clir ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

- **Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer datrys anghydfodau'n ddigon cadarn i sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys yn gyflym neu'n cael eu hosgoi'n gyfan gwbl.**

Er gwaethaf ymdrechion gorau rhieni a gweithwyr proffesiynol i gytuno ar y ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant nid ydynt yn llwyddo i wneud hyn bob amser. Er ein bod yn credu bod rhoi'r hawl i apelio i Dribiwnlys yn fodd o sicrhau bod awdurdodau lleol ac eraill yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd priodol credwn na ddylai'r broses apelio ond gael ei hystyried os nad oes unrhyw ddewis arall. Byddai datrys anghytundebau yn gynharach a thrwy ddulliau nad ydynt yn rhai barnwrol yn fwy llesol i rieni ac yn sicrhau gwell defnydd o arian cyhoeddus. Mae'r broses apelio yn llafurus o ran amser, yn ddrud, yn achosi cryn straen a gall arwain at hanes o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng rhieni ac awdurdodau lleol. Hoffem weld sefyllfa lle y gwneir pob ymdrech i osgoi anghytundebau, a phan fydd unrhyw anghytundebau bydd gweithdrefnau ar gyfer eu datrys mor gyflym â phosibl drwy gyswllt uniongyrchol rhwng y partïon perthnasol. Nid oes gweithdrefnau effeithiol a gwahanol yn bodoli ar hyn o bryd yn ein tyb ni ar gyfer datrys anghydfodau ac mae hyn yn arwain at nifer uwch o apeliadau nag a fyddai petai trefniadau clir, cyson ac effeithiol yn bodoli.

- **Mae'r ffaith nad oes unrhyw broses apelio o safbwynt y gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad yn golygu eu bod o bosibl o dan anfantais annheg.**

Mae'r broses apelio bresennol ar gyfer AAA yn canolbwyntio'n llwyr ar y broses sydd ynghlwm wrth ddatganiadau. Nid oes unrhyw hawl penodol i apelio o safbwynt darpariaethau addysgol arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad, neu nad oes angen datganiad arnynt (ee y rhai a gefnogir drwy Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy). Yn ogystal, nid oes unrhyw hawl i apelio o safbwynt dysgwyr ôl-16 sydd ag AAD ac sydd wedi gadael yr ysgol.

Nid cymhlethdod anghenion plentyn neu berson ifanc ddylai fod y prif ffactor wrth bennu a ddylai fod modd apelio yn erbyn methiant i ddarparu ar ei gyfer. Yn fwyfwy, credwn fod y sefyllfa hon yn annog rhieni i geisio sicrhau datganiad ar gyfer plant neu bobl ifanc nad oes wir angen un. Gallai hyn, yn ei droi, arwain at gynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn y ffaith bod awdurdod lleol wedi gwrthod asesu neu roi datganiad. Credwn fod diffyg unrhyw hawl i apelio mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn neu'n dymuno dilyn addysg a hyfforddiant y tu allan i'r ysgol yn arbennig o annheg.

## 3.3 Pa newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud drwy Fil?

Er mwyn myndi'r afael â'r pryderon sydd gennym ynghylch y broses bresennol rydym yn cynnig y bydd Bil yn:

**16. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor a hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau, gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.**

.

Credwn fod gan blant, pobl ifanc a'u rhieni hawl i dderbyn cyngor a gwybodaeth priodol ynghylch y broses ar gyfer pennu anghenion plentyn neu berson ifanc, asesu'r anghenion hynny a chynllunio ar eu cyfer. Hoffem ailddatgan y gofyniad presennol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ynghylch rhoi gwybodaeth a chyngor, ond hoffem i'r wybodaeth hon gael ei darparu mewn modd mwy clir ac effeithiol. Gallai rhoi gwybodaeth fwy clir i deuluoedd am y cymorth sydd ar gael helpu i leihau'r angen i rieni fuddsoddi eu hamser a'u hegni mewn apêl i Dribiwnlys er mwyn sicrhau'r gefnogaeth gywir, a gallai arbed costau i'r awdurdodau lleol.

Mae arferion da eisoes ar waith o fewn rhai ardaloedd. Mae llawer o rieni'n elwa ar gyngor a gwybodaeth gan eu Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni lleol sy'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd i rieni am AAA eu plant. Bydd y Cod Ymarfer newydd yn darparu canllawiau diwygiedig ynghylch darparu'r gwasanaethau hyn mewn modd effeithiol, ar sail arferion da. Rydym yn disgwyl rhagor o bwyslais ar 'Wasanaethau Partneriaethau Teulu' yn unol â datblygiadau ehangach o fewn polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â model o gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu.

Nodwyd yn ein hymgynghoriad yn 2012 ein bod yn bwriadu datblygu Llwybrau Darpariaeth a oedd yn diffinio'n benodol rolau, cyfrifoldebau a safonau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau i bob lefel o angen. Er ein bod yn parhau i weld rhinweddau posibl Llwybrau Darpariaeth fel dull posibl o gefnogi dysgwyr â nam ar eu golwg neu nam ar eu clyw, credwn bellach y byddai eu cyflwyno i bob ardal yn mynd yn groes i'r egwyddor y dylai darpariaeth adlewyrchu anghenion amrywiol yr unigolyn ac nid ei gyflwr. Byddwn yn ystyried y cwmpas posibl ar gyfer Llwybrau Darparu penodol wrth i ni ddatblygu'r Cod Ymarfer.

**17. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a'i gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio prosesau cwynion lleol cyn cyfeirio apêl i'r Tribiwnlys.**

Credwn y dylai trefniadau effeithiol ar gyfer datrys anghydfodau chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau atebion cyflym a syml i anghytundebau ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol rhwng plant a phobl ifanc, neu eu rhieni, ac ysgolion neu awdurdodau lleol.

Byddwn yn ailddatgan y gofyniad presennol i roi trefniadau o'r fath ar waith, ond cynigiwn hefyd y dylai fod yn ofynnol i rieni a phlant ddilyn y broses briodol ar gyfer

cwynion lleol cyn y gall apêl i'r Tribiwnlys fynd rhagddi. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, na ddylai hyn arwain at oedi afresymol o ran y gallu i arfer hawl i apelio a byddwn yn pennu amserlenni priodol mewn perthynas â hyn. Byddwn yn cynnwys canllawiau clir a hefyd, lle y bo angen, ofynion gorfodol mewn perthynas â'r trefniadau hyn yn y Cod Ymarfer newydd.

**18. Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi person annibynnol a fydd yn hwyluso’r gwaith o ddatrys anghytundebau.**

Rydym yn awyddus i hybu swyddogaeth cyfryngu a gaiff ei hwyluso gan barti annibynnol yn ystod y broses apelio. Er gwaethaf manteision posibl cyfryngu, nid yw'n cael ei ddefnyddio na'i hybu lawer felly byddwn yn defnyddio'r Cod Ymarfer newydd er mwyn ceisio annog rhagor o ddefnydd ohono a darparu canllawiau ynghylch ei ddefnyddio'n effeithiol.

**19. Sicrhau bod hawl i gyflwyno apêl i’r Tribiwnlys yn erbyn:**

- **penderfyniad i beidio â sefydlu CDU;**
- **gwrthod cais i adolygu CDU;**
- **union gynnwys CDU, gan gynnwys y disgrifiad o anghenion y plenty neu'r person ifanc neu'r ddarpariaeth addysgol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny;**
- **methiant i gyflwyno'r ddarpariaeth a nodwyd yn y CDU;**
- **penderfyniad i ddirwyn CDU i ben.**

Er mwyn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn gadarn a bod gan rieni, plant a phobl ifanc hyder ynddi credwn fod yn rhaid sicrhau hawl i apelio i Dribiwnlys annibynnol y mae ei benderfyniadau yn rhai terfynol. Er na ddylai achos ond gael ei gyfeirio at Dribiwnlys os nad oes unrhyw ddewis arall credwn y dylai cadw'r hawl hwn helpu i sicrhau bod dyletswyddau o safbwynt dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n briodol. Rydym yn bwriadu ailenwi’r Tribiwnlys yn Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru er mwyn adlewyrchu’r derminoleg a gaiff ei defnyddio fel rhan o’r system newydd.

**20. Rhoi'r hawl i apelio i unrhyw blentyn, person ifanc o oedran ysgol neu iau sydd â CDU (neu ei riant) neu sy'n credu y dylai fod ag un.**

Hoffem sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu rhwng 'gwerth' CDU a wneir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion llai neu fwy cymhleth. Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY hoffem sicrhau bod ganddo'r un hawl i CDU a chredwn y dylid sicrhau'r un hawl i apelio.

**21. Estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr ôl-16, hyd at 25 oed, sydd ag ADY ac sy'n derbyn neu sy'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.**

Er mwyn sicrhau dull unedig ar gyfer mynd i'r afael ag ADY, sy'n galluogi plant a phobl ifanc i drosglwyddo'n ddidrafferth o'r ysgol i addysg a hyfforddiant ôl-16, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ag ADY yr un hawl i apelio o safbwynt yr amgylchedd addysg a hyfforddiant cyn ysgol ac ar ôl ysgol. Bwriedir i CDU bontio'r bwlch hwn, a chredwn y dylai rhoi'r hawl i apelio o safbwynt CDU wneud yr un peth. Gan mai'r awdurdod lleol fydd yn parhau'n gyfrifol am gynnal a diogelu'r CDU a diogelu ei gynnwys ni fydd pŵer y Tribiwnlys ond yn berthnasol i'r awdurdod lleol, pa bynnag sefydliad addysg neu leoliad hyfforddiant y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu.

**22. Ailddatgan y darpariaethau presennol mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a chyfeillion achos, ond ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ynghylch y mater, gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.**

Credwn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol er mwyn gallu arfer yn llawn eu hawl i apelio neu i fod yn rhan o weithdrefnau ar gyfer datrys anghytundebau. Byddwn felly'n ailddatgan y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol (y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ar draws Cymru o fewn y flwyddyn nesaf). Byddwn hefyd yn ailddatgan y darpariaethau presennol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau mewn perthynas â darparu cyfeillion achos. O safbwynt gwasanaethau eiriolaeth, byddwn yn cynnwys canllawiau clir a gofynion gorfodol yn y Cod ynghylch natur ac ansawdd y trefniadau hyn.

# Casgliad

## Beth fydd yr effaith?

Credwn y bydd y cynigion hyn yn:

- **creu system gyfartal ac unedig** ar draws yr ystod oedran 0-25 oed, gwahanol ddarparwyr addysg a gwahanol lefelau o angen, gan felly waredu unrhyw anghysondeb ac annhegwch;

- **cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol** o asesu'n barhaus, gan alluogi i'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwr unigol ddatblygu dros amser yn unol â'i anghenion newidiol;

- **sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn,** gan roi lle canolog i safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses a'i gynnwys ef a'i deulu wrth asesu, ymyrryd, cynllunio ac adolygu o'r dechrau'n deg;

- **darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor** i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses sydd ynghlwm wrth ADY a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth;

- **osgoi unrhyw ddyblygu** a allai ddeillio o gynlluniau sy'n gwneud yr un peth, i bob pwrpas, ac integreiddio lle y bo'n bosibl gynlluniau ac ymyriadau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc;

- **gwella trefniadau cydweithio** rhwng asiantaethau wrth iddynt gynllunio eu hymyriadau, cytuno ar flaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael yn brydlon er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth;

- **sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd** drwy feithrin partneriaethau mwy cadarn â rhieni a hybu diwylliant o dryloywder a ddylai sicrhau rhagor o ymddiriedaeth rhwng rhieni, darparwyr addysg ac awdurdodau lleol;

- **sicrhau cyn lleied â phosibl o apeliadau** drwy ei gwneud hi’n haws i ddatrys anghytundebau cyn gynted â phosibl;

- **cynnal ac estyn yr hawl i apelio** i'r Tribiwnlys fel y ffordd orau o sicrhau digonolrwydd y gefnogaeth a ddarperir i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, ac nid dim ond y rhai sydd ag anghenion cymhleth.

Caiff y costau sydd ynghlwm wrth y cynigion hyn eu hystyried yn fanwl cyn i'r Bil gael ei gyflwyno a bydd y gwaith hwn yn rhan o asesiad effaith rheoleiddiol a gaiff ei gyhoeddi bryd hynny. Fodd bynnag, mae adnoddau ariannol sylweddol yn cael eu neilltuo i gefnogi plant a phobl ifanc ag AAA. Roedd cyfanswm o £358 miliwn ar gael yn y gyllideb ar gyfer AAA yn y flwyddyn ariannol 2013-14, sy'n gynnydd o £11.5 miliwn neu 3.3% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. O blith cyfanswm y gwariant, mae'r swm a ddyrannwyd i gyfrifon ysgolion arbennig yn cyfrif am 24% o’r gwariant tra bo'r dyraniadau tybiannol o fewn ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd yn cyfrif am 45% arall o'r cyfanswm. Caiff y 31% sy'n weddill ei gadw'n ganolog gan awdurdodau lleol.

Wrth gyflwyno'r diwygiadau deddfwriaethol ac wrth gyhoeddi'r Cod Ymarfer newydd bydd angen cynnal rhaglen o waith hybu a hyfforddi ar gyfer staff mewn ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill, staff mewn awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol sy'n debygol o weithio gyda phlant ag ADY. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn deall y broses ynghyd â'u swyddogaeth hwy o fewn y broses honno. Bydd angen mynd ati hefyd i hybu'r system a'r derminoleg newydd ymysg plant a phobl ifanc, rhieni a'r cyhoedd yn ehangach. Bydd rhai costau untro ynghlwm wrth y rhaglen hon.

Byddwn yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o aflonyddwch ac ansicrwydd i randdeiliaid wrth drosglwyddo o un system i system arall drwy gynllunio'r broses drosglwyddo'n ofalus. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y gallai disodli datganiadau â CDU achosi cryn ofid i'r dysgwyr hynny, a'u rhieni, sydd â datganiad ar hyn o bryd. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod amserlen a chynllun manwl sydd wedi'i brisio ar gael erbyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Bydd ein cynllun trosglwyddo yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n llwyr ac nad yw newid y broses yn golygu bod unrhyw ddysgwr o dan anfantais.

Byddwn yn disgwyl i'r diffiniad o ADY a'r hawl i CDU gynnwys yr holl ddysgwyr hynny sydd eisoes yn cael eu cefnogi drwy Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/ Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu sydd â datganiad. Nid ydym o'r farn y byddai cost y gefnogaeth i'r dysgwyr hynny yn wahanol iawn i gost y gefnogaeth sydd eisoes yn cael ei darparu iddynt.

Ein bwriad yw creu system sy'n lleihau'r angen i apelio a dylai ein cynigion sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatrys anghydfodau cyn apelio helpu i wireddu hyn. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gallai estyn yr hawl i apelio i gynnwys yr holl ddysgwyr sydd â CDU, ac yn arbennig plant a phobl ifanc rhwng 16 a 25, olygu y bydd nifer uwch o apeliadau. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod costau ynghlwm wrth greu system gadarn ar gyfer datrys anghydfodau ac ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor.

Mae rhai costau cylchol yn debygol o fod ynghlwm wrth gynnwys plant a phobl ifanc rhwng 16 a 25 yn y diffiniad o ADY. Yn arbennig, bydd costau ynghlwm wrth y ffaith y bydd awdurdodau lleol yn derbyn cyfrifoldebau am asesu dysgwyr ôl-16 (fel rhan o broses y CDU) ac am sicrhau darpariaeth arbenigol ôl-16 ar eu cyfer. Bydd Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cyllido'r ddarpariaeth hon.

## Yr amserlen a'r camau nesaf

Bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi ei flaenoriaethau deddfwriaethol yn ei ddatganiad blynyddol ar Raglen Ddeddfwriaethol Cymru ym mis Gorffennaf. Caiff y rhaglen ei chyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn www.cynulliadcymru.org.

Ceir rhagor o wybodaeth am gamau'r broses ddeddfu mewn canllaw ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn www.cynulliadcymru.org/guide_to_the_legislative_process_e_final.pdf

Rydym yn rhagweld na fydd Bil yn cynnwys y cynigion deddfwriaethol hyn yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn 2015. Ni allai unrhyw gynigion ddod i rym o safbwynt darpariaeth cyn blwyddyn academaidd 2016/17 ond bwriedir ymgynghori ynghylch yr union ddyddiad gweithredu. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn ddrafft gyflawn o'r Cod Ymarfer maes o law at ddiben ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch.

Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol wrth i ni fireinio ein cynigion ar gyfer diwygio. Bydd y sylwadau a dderbyniwn mewn ymateb i'r Papur Gwyn hwn yn hanfodol ar gyfer ffurfio'r darpariaethau i'w cynnwys mewn Bil drafft. Rydym yn annog pawb sydd â barn ynghylch y system bresennol ar gyfer AAA neu unrhyw un o'r cynigion a gynhwysir o fewn y Papur Gwyn i rannu eu syniadau â ni. Ceir manylion ynghylch sut i ymateb ar dudalen 1. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 25 Gorffennaf 2014. Yn dilyn hyn byddwn yn dadansoddi'n ofalus yr adborth a dderbyniwn a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law.